



David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Hydref 2015

Annwyl David,

Yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), addewais ddarparu gwybodaeth bellach mewn perthynas ag adran 186, sef y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol.

Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn ond i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth y mae eu hangen o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn. Darpariaeth ddeddfwriaethol gyffredin iawn yw hon ac mae'n arfer drafftio da cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil gan ei fod yn galluogi'r llyfr statud i gael ei gadw mewn trefn.

Ni ellir defnyddio'r pŵer i wneud darpariaeth newydd, sylweddol nad yw'n gysylltiedig â'r Bil, ond yn hytrach darpariaeth y mae ei hangen er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn gweithio'n iawn. Ymhellach, ni ellir ei ddefnyddio i wneud newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth arall neu i ymestyn cwmpas y Bil hwn.

O gofio cwmpas cyfyngedig a natur y pŵer, na ellir ei ddefnyddio ond mewn cysylltiad â Bil y mae'r Cynulliad yn craffu arno, rwyf o'r farn y dylai rheoliadau o dan adran 186 fod yn destun y weithdrefn negyddol.

Gofynnwyd imi hefyd paham yr oeddwn wedi dewis y fersiwn arbennig honno o eiriau ar gyfer y ddarpariaeth yn hytrach na fersiynau eraill a ddefnyddir ym Miliâu eraill Llywodraeth Cymru. Yn wahanol i bwerau cyfatebol mewn deddfwriaeth arall (megis Bil yr Amgylchedd (Cymru), nid yw adran 186 yn caniatáu i ddarpariaeth *drosiannol* neu *arbed* gael ei gwneud. Nid oes angen y ddarpariaeth honno yn yr amgylchiadau hyn, gan fod y Bil yn sefydlu fframwaith cyfreithiol gyfan gwbl newydd: ni fydd unrhyw drosi o fframwaith cyfreithiol cyfatebol y DU (na fydd yn gymwys mewn perthynas â threthi datganoledig) a dim darpariaethau y mae angen eu harbed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth bu i chi godi pryder ehangach ynghylch pwynt o egwyddor a nodi'ch barn y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol bob amser, os ydych yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol trwy reoliadau. Caf ar ddeall eich bod yn bwriadu ysgrifennu at y Prif Weinidog am hyn ac felly ni chyflwynaf sylwadau ar wahân.

Yn olaf, o edrych ar adran 186 ymhellach rydym wedi sylweddoli bod y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys rhai anghysondebau ynghylch y pŵer i wneud rheoliadau, gan ei fod yn datgan yn anghywir bod gweithdrefn y Cynulliad yn gadarnhaol o dan rai amgylchiadau ac yn datgan yn anghywir y caiff y rheoliadau wneud darpariaethau "trosiannol" neu "arbed". Nid yw hyn yn wir. Rwyf yn ymddiheuro am y gwall hwn. Byddaf yn sicrhau bod y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio ar ôl Cam 2.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AC / AM

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business